## Y Cymun Bendigaid

**Gosodiadau ar alawon gwerin**
**gan Cass Meurig**

### Trugarha    tôn: Si Hei Lwli

Trugarha, O Arglwydd
O Arglwydd, trugarha,
Trugarha, Crist Iesu,
Crist Iesu, trugarha.
Trugarha, O Arglwydd mawr
Wrth dy bobl yma nawr,
Trugarha, O Arglwydd,
O Arglwydd, trugarha.

### Cyffes    tôn: Si Hei Lwli

Dad, rŷm wedi pechu
Ar feddwl, gair a gwneud,
Dad, rŷm wedi methu
I wneud beth ddylem wneud.
Er mwyn Iesu Grist dy Fab
A fu farw drosom ni,
Maddau'r hyn a fuodd,
A'n harwain gyda Thi.

### Gogoniant    tôn: Cadair Idris

Gogoniant i Dduw yn y nefoedd goruchaf,
Tangnefedd islaw ar y ddaear i ni;
Addolwn, moliannwn, diolchwn am d'ogoniant,
Dduw Dad hollalluog, ein brenin wyt Ti.
Arglwydd Iesu, Oen Duw sydd yn dwyn ymaith pechodau,
Fab Duw, trugarha wrthym, gwrando ein llef;
Ti'n unig sy'n sanctaidd, Ti'n unig yw'r Arglwydd,
Tad, Mab, Ysbryd Glân, yng ngogoniant y nef.

## The Holy Eucharist

**Settings to Welsh folk tunes**
**by Cass Meurig**

### Kyrie   tune: Si Hei Lwli

Lord, have mercy on us
Have mercy on us, Lord
Christ have mercy on us,
Have mercy on us, Christ.
Lord have mercy, hear the prayer
of your people gathered here
Lord, have mercy on us
Have mercy on us, Lord.

### Confession   tune: Si Hei Lwli

Lord, we've sinned against you
In thought and word and deed,
Lord we've left unfinished
The things where there was need.
For the sake of Christ your Son,
Please forgive us all we've done,
In your mercy help us
To follow where you lead.

### Gloria      tune: Cadair Idris

All glory to God in the highest of heavens
And peace to his people on earth here we sing;
We worship and thank you, we praise you for your glory,
O Lord God Almighty, our heavenly king.
Jesus Christ, Lamb of God, who has borne away our sin,
Son of God, hear our prayer in your merciful love;
You only are holy, You only are the Lord,
Father, Son, Holy Spirit in heaven above.

**Ymateb i'r gweddiau**
**tôn: Cysga di fy mhlentyn tlws**

Ysbryd Glân, o clyw ein cri
Ysbryd Glân, o clyw ein cri
Ysbryd Glân, o clyw ein cri
A thyrd mewn nerth i'n harwain
A thyrd mewn nerth i'n harwain

**Response to intercessions**
**tôn: Cysga di fy mhlentyn tlws**

Holy Spirit, hear our prayer
Holy Spirit, hear our prayer
Holy Spirit, hear our prayer
And come in power to guide us
And come in power to guide us.

**Dyrchefwch eich calonnau tôn: Hiraeth**

Y mae'r Arglwydd ein Duw yma
Gyda ni mae'i Ysbryd Sanctaidd
O dyrchefwch eich calonnau,
Fe'i dyrchafwn at yr Arglwydd.

Rhown ein diolch i Dduw'n Harglwydd,
Rhown ein clod, a'n mal diflino.
Iawn yn wir, a'm gwir ddyletswydd,
Yw rhoi ein diolch, a'n clod iddo.

**Lift up your hearts tune: Hiraeth**

O the Lord our God is here
With us is his Holy Spirit
Lift your hearts to him in worship
We lift them to the Lord our Maker.

Let us thank the Lord our God
Let us praise and thank him duly
It is right and is our duty
To give our thanks and praise him truly.

**Credo tôn: Ffarwel i Blwy Llangywer**

Rwy'n credu ac ymddiried yn Nuw y Tad, drwy ffydd,
Creawdwr hollalluog a greodd bob peth sydd;
Rwy'n credu ac ymddiried yn Iesu Grist, Mab Duw,
Fu farw ar groes drosom ni a chodi nôl yn fyw.

Rwy'n credu ac ymddiried yn Nuw yr Ysbryd Glân
Sy'n rhoi i ninnau fywyd a'n harwain ni ymlaen,
Rwy'n credu ac ymddiried mai Tri yn Un yw Duw,
I'r Tad, i'r Mab, i'r Ysbryd Glân rhof glod tra byddaf fyw.

**Creed Tune: Ffarwel i Blwy Llangower**

I believe in God the Father Almighty, holy Lord
Most powerful creator of all things by his word,
I believe and trust in Jesus, the Son of God, our friend,
Who died upon the cross for us and rose to life again.

I believe in God the Spirit, who gives us life each day,
The Lord who dwells within us and leads us in His way,
In Father, Son and Spirit, the Holy Trinity,
One God, the Three in One, my trust forever more will be.

**Sanctaidd a Bendigedig tôn: Hiraeth**

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd
Duw pob gallu a nerth wyt tithau;
Nef a dae'r sy'n llawn gogoniant,
Cân hosanna i'r goruchaf.

Bendigedig ydy hwnnw
Sydd yn dod yn enw'r Arglwydd
Cân hosanna i'r goruchaf
Moliant iddo yn dragywydd

**Dirgelwch y Ffydd tôn: Hiraeth**

Iesu Grist fu farw drosom
Iesu Grist a atgyfododd
Iesu Grist a ddaw drachefn
Mewn gogoniant mawr y nefoedd.

**Oen Duw tôn: Beth yw'r haf i mi**

Iesu Grist, Oen Duw,
Sydd yn dwyn ymaith bechodau'r byd,
Iesu Grist, Oen Duw,
Gwir iachawdwr wyt i'r byd i gyd,
Trugarha, o Arglwydd mawr,
Sy'n dwyn ein pechod oll yn awr,
Dyro dy dangnefedd
Yn ein calonnau ni o hyd.

**Gweddi'r Arglwydd**
**tôn: Yr eos a'r glan 'hedydd**

Ein Tad sydd yn y nefoedd,
Mor fawr yw'th enw sanctaidd,
Deled dy deyrnas, gwneler d'ewyllys
Yma, fel yn y nefoedd.

Rho fara beunydd i ni
A maddau'n dyled i ti,
Fel y maddeuwn ninnau i'r rhai
Sydd yn ddyledwyr i ni.

A phaid â'n profi'n galed,
Ond rhag y drwg ein gwared,
Ti biau'r deyrnas, nerth a gogoniant,
Yn oes oesoedd, Amen.

**Sanctus and Benedictus tune: Hiraeth**

Holy holy, holy Lord,
God of power, God almighty
Heaven and earth are full of glory,
Sing hosanna in the highest.

Blessed is the one who comes
in the name of God most holy
Sing hosanna in the highest,
Praises to our Lord eternal.

**The Mystery of Faith tune: Hiraeth**

Hear the mystery of our faith:
Christ has died and Christ is risen
Christ will come again,
In the glory of the heavens

**Agnus Dei tôn: Beth yw'r haf i mi**

Lamb of God, you take
All the sins of the world away
Lamb of God, redeemer
Of all the world, the price you pay,
Lord, have mercy upon us;
You bore our sins upon the cross;
Give us, Lord, your peace
in our hearts for now and evermore.

**The Lord's Prayer**
**tune: Yr eos a'r glân 'hedydd**

Our Father God in heaven,
Your name be highly honoured,
Your kingdom come, your will be done
On earth, as is in heaven.

Give us all we need, daily,
Forgive our sins in mercy,
As we forgive all those who offend
And sin against us, truly.

From tempter’s trials, Lord, keep us,
And from all evil save us
Yours is the kingdom, power and glory
Now and ever, Amen.